Rhif ymchwil gymdeithasol: 41/2020
Dyddiad cyhoeddi: 25/06/2020

# Arolwg Cenedlaethol Cymru: arolwg misol, Mai 2020

O ganlyniad i'r coronafeirws, rydym yn cynnal fersiwn misol o'r Arolwg Cenedlaethol dros y ffôn yn hytrach na'r arolwg wyneb yn wyneb arferol sydd wedi'i atal ar hyn o bryd. Mae 1,000 o bobl y mis yn cymryd rhan yn yr arolwg dros y ffôn, ac mae'r pynciau'n cael eu diweddaru bob mis. Mae sampl cynrychioliadol o bobl 16+ oed o bob cwr o Gymru a ddewiswyd ar hap yn cymryd rhan, gan gynnwys pobl sy'n fwy anodd eu cyrraedd a phobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd.

## Prif ganlyniadau

### Cyflogaeth

Mae **45%** o bobl yn gweithio am dâl, o'i gymharu â **57%** cyn cyfnod y cyfyngiadau.

Mae **11%** o bobl ar seibiant: **12%** o ddynion a **10%** o fenywod

### Sefyllfa waith

O'r holl bobl sy'n gweithio ar hyn o bryd:
Mae **78%** yn cael cyflog llawn os ydynt yn hunanynysu. Gall **44%** wneud y rhan fwyaf o'u gwaith neu eu holl waith gartref.
Mae **80%** yn dweud bod y coronafeirws wedi achosi problemau o safbwynt eu bywyd gwaith.

### Tai Rhent

Mae **8%** o bobl sy'n rhentu eu cartref yn methu â thalu eu rhent yn brydlon.

Mae **45%** o'r rhain yn dweud bod hyn oherwydd y coronafeirws a **25%** yn dweud bod hyn oherwydd bod eu hincwm yn rhy isel yn gyffredinol.

### Tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr

Mae gan **46%** o berchen-feddianwyr forgais ar eu cartref.

O'r holl bobl sydd â morgais, mae **13%** wedi trefnu i ohirio eu taliadau morgais.

### Biliau

Mae **4%** o bobl yn syrthio ar ei hôl hi neu'n cael anhawster cyson i dalu biliau.

Mae **24%** yn dweud bod y coronafeirws eisoes wedi achosi problemau o ran cyllid yr aelwyd.

### Credyd Cynhwysol

Mae **9%** o oedolion sydd o oedran gweithio wedi derbyn taliadau Credyd Cynhwysol yn y 3 mis diwethaf.

Mae **2%** arall wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol yn y 3 mis diwethaf.

**Tlodi Bwyd**

Am o leiaf un diwrnod yn y pythefnos blaenorol mae **5%** o bobl heb gael pryd o fwyd sylweddol oherwydd diffyg arian.

Mae **1%** wedi derbyn bwyd o fanc bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Llesiant**

Mae **41%** o bobl yn teimlo'n bryderus ac mae **75%** yn hapus.

Mae pobl nad yw eu hiechyd yn dda yn fwy tebygol o deimlo'n unig na'r rheini sydd mewn iechyd da: **26%** o'i gymharu â **9%**

**Synnwyr o gymuned**

Mae **85%** o bobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol.

Mae **89%** o bobl 45 oed a throsodd yn teimlo eu bod yn perthyn, o'i gymharu â **73%** o'r rheini sy'n 16-24 oed.

**Ysgolion cynradd**

Mae **93%** o rieni sydd â phlentyn oedran ysgol gynradd yn cytuno bod yr ysgol yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi eu plant gyda'u dysgu.

Mae **57%** yn helpu eu plentyn gyda mathemateg neu rifau bob dydd.

**Ysgolion uwchradd**

Mae **85%** o rieni sydd â phlentyn oedran ysgol uwchradd yn cytuno bod yr ysgol yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi plant gyda'u dysgu.

Mae **39%** yn cefnogi eu plentyn bob dydd gyda gwaith ysgol.

**Apwyntiadau gyda Meddyg Teulu**

Mae **10%** o bobl wedi cael apwyntiad gyda meddyg teulu ers dechrau mis Ebrill.

O'r rhain, roedd **34%** yn apwyntiadau wyneb-yn-wyneb, **61%** dros y ffôn, a **5%** drwy alwad fideo.

Cafodd cyfweliadau dros y ffôn eu cynnal rhwng 25 Ebrill a 27 Mai 2020 gyda phobl a oedd wedi cymryd rhan cyn hyn yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae siartiau a thablau canlyniadau manwl ar gael drwy ddangosydd canlyniadau rhyngweithiol. I gael rhagor o wybodaeth am gasglu data a'r fethodoleg darllenwch yr Adroddiad ansawdd.

## Cymharu â chanlyniadau Arolygon Cenedlaethol blaenorol

Yn sgil y newidiadau i'r modd o gynnal yr arolwg a'r cyfnod penodol ar gyfer gofyn yr holl gwestiynau rhaid inni fod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau cwestiynau a ofynnwyd mewn blynyddoedd blaenorol hefyd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gallant fod yn ddefnyddiol i ddangos a fu unrhyw newid ai peidio.

- Yn 2018-19 roedd yr un gyfran o bobl (4%) yn methu â thalu biliau'n brydlon.
- Yn 2018-19 roedd cyfran uwch o bobl (9%) heb gael pryd o fwyd sylweddol oherwydd diffyg arian Am o leiaf un diwrnod yn y pythefnos blaenorol. Cafwyd y canlyniad hwn pan oedd y cwestiwn mewn fformat hunan-lenwi, a allai fod wedi cyfrannu at y ffigwr uwch.
- Yn 2018-19 roedd yr un gyfran o bobl (77%) yn teimlo'n hapus, a roedd cyfran is yn teimlo'n bryderus (34%).
- Yn 2018-19 roedd cyfran is o bobl (72%) yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol.

---

Gellir gwneud cais am ragor o wybodaeth a chanlyniadau i arolygon@llyw.cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-680-8